

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 22AIN O CHWEFROR 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Arwel Davies, Ceri Davies, Bari Evans, Geraint Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Iwan Jones, Falmai Evans, Hywel Davies a Stanley Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

A: Cynghorydd Elfed Williams ar eitem 10C isod.

B. Cynghorydd Philip Williams ar eitem 10A isod.

C. Cynghorydd Ceri Davies ar eitem 10E isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD A'R 25AIN O IONAWR 2021.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Ionawr 2021 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A: Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatâ'r ceisiaday cynllunio canlynol a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor:-

1. Cais cynllunio 23/2020/1039 - codi estyniad deulawr i ochr yr annedd yn 16 Caer Felin, Llanrhaeadr.

2. Cais cynllunio 23/2021/0001 - amrywio amod rhif 2 cod caniatâd cynllunio rhif 23/2020/0196/PF i ganiatáu diwygiadau i'r gwaith adeiladu ac ymddangosiad yn Ffordd Las, Llanrhaeadr.

3. Cais cynllunio 23/2021/0010 - tynnu cyntedd dan do a chodi cyntedd newydd ynghyd ag addasiadau mewnol yn Fflat Siop-y-Pentre. Llanrhaeadr.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn ar faterion y priffyrdd a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

6. DIWEDDARAF BAND EANG Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

7. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

8. MATERION CYLLID.

Datganiad Banc £16,550.08.

9. LWFANS BLYNYDDOL 2020/21 AELODAU'R CYNGOR.

Dosbarthodd y Clerc ffurflenni "Lwfans Blynyddol 2020/21" i'r aelodau'r Cyngor.

10. TRAFOD CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH Y CYNGOR SYDD WEDI DŴAD I LAW ERBYN Y CYFARFOD.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr Aelodau i'r rhoddion blynyddol canlynol:-

A: Gynnal mynwentydd hen Eglwys Iago Sant, Pant Pastynog a mynwent Eglwys Dyfnog Sant £700.00.

B. Ysgol Pant Pastynog £1,000.00.

C. Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr Y C £750.00.

D. Clwb Sêr Prion £700.00.

E. Caban Ysgol Pant Pastynog £600.00.

F. Gynnal mynwent Capel Saron £350.00.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO:-

A. CAIS CYNLLUNIO 23/2021/0108 - AMRYWIO AMOD 2 A 3 O GANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLOL RHIF 23/2018/0268 I GANIATÂU 2 FLYNEDD ARALL AR GYFER CYFLWYNO MATERION A GODWYD YN ÔL AR DIR LLWYN AFON, LLANRHAEDR – dim gwrthwynebiad.

B. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0463 - CODI 8 UNED LLETY GWYLIAU, SWYDDFA SAFLE A GWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR Y LODGE, LLANRHAEDR -ar ôl trafodaeth a phleidlais i'r cais cynllunio penderfynwyd rhoi'r ddwy ochor o'r pleidiasai i'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych:-

Three members resolved to grant the planning application as it provides another business for the village of Llanrhaeadr which will provide employment and tourism to the local area. Three members resolved to object to the planning application on the grounds supplied by Chris Evans on the Conservation and Design comments as follows:-

"The application has failed to acknowledge that the site lies partially within and directly adjacent to the Grade II Registered Historic Park & Garden of Llanrhaeadr Hall and the implications the development will have on the setting. I feel the density and scale of the development will be visually detrimental to the setting of the historic asset and the adjacent Conservation Area. Also I have concerns the excavations and drainage works required will have a negative impact on the rooting systems of the adjoining mature woodland. Although development for tourism is generally encouraged i feel this site is not the best location for the proposal being adjacent to a busy main road and insensitively sited having lodges right on the boundary of the adjoining village graveyard. For the above reasons i object to this application."

12. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd pris oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych o £1,800.00 am adnewyddu'r ddwy arwydd "Pentre' Llanrhaeadr" ar yr A525. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn y pris ac i ofyn am gyfraniad i'r arwydd ochr Rhuthun ac i ofyn i'r Cyngor Sir am symud yr arwydd ochr Rhuthun i safle lletach.

B. Derbyniwyd y Clerc galwad ffôn oddi wrth Tomos Hughes, Swyddog Cymorth Pads Gogledd Cymru o'r Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn awgrymu fod y Cyngor Cymuned yn rhoi Diffibriliwr ychwanegol wrth Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr. Penderfynwyd yr aelodau i ofyn am brisio Diffibrilwyr yn Saron a Prion gan Tomos Hughes.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Nis oedd yna unrhyw faterion cyngor Sir Ddinbych i'w adroddi.

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A: Penderfynwyd gofyn i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at a materion canlynol:-

- 1: Eisiau trwsio'r wal ffordd Eglwys Llanrhaeadr heb oedi oherwydd iechyd a diogelwch.
2. Eisiau glanhau o dan bont yr afan wrth y King's Head yn Llanrhaeadr.
3. Eisiau trwsio'r ffordd wrth Rossa Fawr, Prion.
4. Eisiau trwsio'r ffordd wrth Brÿn Mulan, Prion.

B. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr afon heibio Nant-y-Felin, Llanrhaeadr eisiau ei lanhau.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – NOS LUN 29AIN O FAWRTH 2021.